# Datganiad Tryloywder

**Swyddog Cyfrifol: Pennaeth Llywodraethu**

**Dyddiad: Rhagfyr 2019**

## Ein hymrwymiad i Dryloywder

Mae Adra (Tai) Cyfyngedig wedi ymrwymo i fod yn gyfrifol am ei weithredoedd a'i berfformiad mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'r ymrwymiad hwn i'n cwsmeriaid, cymunedau lleol, staff, partneriaid, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill. Rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth am sut rydyn ni'n perfformio, yr hyn rydyn ni'n ei wario a sut rydyn ni'n cael ein llywodraethu, fel y gall unrhyw un sydd â diddordeb yn ein gwaith ddarganfod am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a'n heffeithiolrwydd.

Mae ein **Cynllun Corfforaethol** yn nodi'n glir bod 'Agored' yn un o'r pedwar gwerthoedd craidd. Caiff hyn ei ddisgrifio ymhellach fel: *"Gweithio a gwneud penderfyniadau yn ddibynadwy a thryloyw".* Ein hegwyddorion arweiniol yw y byddwn yn:

- Darparu gwybodaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion cwsmeriaid a phobl eraill sydd â diddordeb
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael am ein cynlluniau, penderfyniadau, polisïau, safonau a pherfformiad
- Darparu gwybodaeth am sut rydyn ni'n cael ein llywodraethu, ein cyllid a sut rydyn ni'n sicrhau gwerth am arian
- Sicrhau fod gwybodaeth yn hawdd ei ddarganfod, yn berthnasol, yn gywir a lle bo hynny'n bosib, yn hunanesboniadol
- Ymateb i geisiadau mewn ffordd sy'n gost-effeithiol ac yn gymesur
- Gweithredu'n gyfreithlon bob amser a chydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir gan ein rheoleiddwyr

Er ein bod wedi dewis mabwysiadu dull agored nid ydym yn cael ein dosbarthu fel awdurdod cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly nid ydym yn ymrwymedig iddo. I gael mwy o wybodaeth am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl ar sut yr ydym yn trin eich data personol, gweler ein Datganiad Preifatrwydd (QPpol11c).

Rydym wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) (sy'n hyrwyddo rhagoriaeth mewn llywodraethu) ac wedi cynnal adolygiad blynyddol o'n cydymffurfiad yn erbyn y Cod.

## Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol

Rydym yn cyhoeddi ac yn darparu'r wybodaeth ganlynol mewn gwahanol ffyrdd a fformatau i ddiwallu anghenion amrywiol ein cwsmeriaid. Mewn llawer o achosion, rydym yn defnyddio ein gwefan i rannu gwybodaeth ond efallai y byddwn yn argraffu rhai dogfennau fel taflenni a newyddlenni. Rydym hefyd yn defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, Instagram a Facebook.

**Ein safonau gwasanaeth, perfformiad a chynlluniau:**

- Ein Cynllun Corfforaethol
- Ein Hadroddiad Blynyddol i denantiaid a rhanddeiliaid
- Rhestr gynhwysfawr o'n holl brif bolisïau, sydd ar gael ar gais
- Gwybodaeth am ein gwasanaethau a sut rydym yn rheoli ein heiddo
- Boddhad tenantiaid gyda'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu
- Ein perfformiad mewn meysydd allweddol yn ystod y flwyddyn

**Gwybodaeth ariannol:**

Mae'r Datganiadau Ariannol blynyddol yn amlinellu ystod o wybodaeth gan gynnwys:

- Adolygiad Strategol o'r cwmni
- Trosolwg o'n Perfformiad Ariannol, e.e. ein gwarged gweithredu
- Adolygiad Gweithredol o'n gweithgareddau
- Manylion am sut yr ydym yn cael ein Llywodraethu a'n Rheoleiddio
- Gwybodaeth ariannol fanwl ar ffurf y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol, Llif Arian a'r Nodiadau cysylltiedig.

Mae'r wybodaeth ariannol fanwl hon yn dangos ein gwahanol ffynonellau incwm, a faint rydym yn ei wario ar gynnal a chadw, rheoli, gwasanaethau, gwella tai a chartrefi newydd. Mae'r manylion hyn hefyd yn dangos materion fel ein sefyllfa ôl-ddyledion, ein credydwyr a'n benthyciadau.

**Sut rydyn ni'n cael ein llywodraethu:**

- Esboniad clir o sut rydyn ni'n cael ein llywodraethu, gan gynnwys sut mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi a'u manylion bywgraffyddol a'u ffotograffau.
- Darn cyfathrebu cryno ar y trafodaethau a'r penderfyniadau allweddol gan Fwrdd Adra.

**Iechyd a Diogelwch:**

- Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn onest gyda'n cwsmeriaid ynglŷn â sut rydym yn sicrhau diogelwch yn y cartref

- Diogelwch ein cwsmeriaid yw ein blaenoriaeth bennaf ac rydym yn cydymffurfio â'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol i sicrhau eich diogelwch. Mae hyn yn cynnwys cynnal ART ym mhob adeilad lle mae ardaloedd cyffredin a chymryd y cam(au) dilynol gofynnol

**Gwybodaeth ar gael ar gais, ac amgylchiadau lle na fyddwn yn gallu darparu gwybodaeth**

Gall unigolion a grwpiau ofyn am wybodaeth am Adra nad yw'n cael ei chyhoeddi fel mater o drefn. Byddwn yn cydymffurfio â'r ceisiadau hyn lle bynnag y bo modd ac yn ymateb cyn pen 20 diwrnod gwaith.

Mewn rhai achosion ni fyddwn yn gallu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae hyn yn debygol o fod yn wir lle:

- byddai'n golygu datgelu gwybodaeth bersonol i drydydd parti fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Diogelu Data
- mae'r wybodaeth yn gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol
- mae'r wybodaeth ar ffurf drafft
- mae datgelu yn cael ei atal gan y gyfraith
- nid yw'r wybodaeth ar gael yn rhwydd / mae'n anodd cael gafael arni
- lle bod achos I gredu fod y wybodaeth yn cael ei hel ar gyfer ymchwil marchnad

Yn yr amgylchiadau hyn byddwn yn ymateb i'r cais cyn pen 20 diwrnod gwaith yn egluro pam na ellir darparu'r wybodaeth.

*Mae Adra yn cydnabod yr hawl i ofyn am adolygu unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r Datganiad hwn. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn derbyn sylw fel cwyn o dan Bolisi Cwynion a Phryderon (CCpol01c).*